# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701


05.06.23

Annwyl ddarpar rieni a gwarchodwyr,

Mae'n anrhydedd gennym rannu â chi ein hadroddiad Estyn diweddar yn dilyn ei hymweliad ym mis Mawrth eleni. Ers sefydlwyd yn 2008, mae'r ysgol wedi sicrhau ei bod yn cynnig yr ofal mwyaf, cwricwlwm gorau a'r cyfleoedd cyfoethocaf i'n plant, a hynny trwy feithrin ethos Gymreig gadarn a'r safonau uchaf i holl ddysgwyr yr ysgol.

Mae'n fraint i gael dathlu bod Estyn wedi cydnabod y safonau uchel sydd gennym ni fel ysgol. O ganlyniad i'r arweinyddiaeth ragorol a holl waith caled Tîm Llan, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wedi derbyn adroddiad heb argymhellion Estyn ar sut i wella. Dyma ond y trydydd tro mae Estyn wedi cydnabod nad oes angen argymhellion ychwanegol ar ysgol a Llangynwyd yw'r unig ysgol Gymraeg i dderbyn adroddiad o'i fath.

Mewn ymateb i'n gwaith eithriadol, mae Estyn wedi ein gwahodd i gyflwyno astudiaethau achos o'n hymarfer rhagorol er mwyn cynorthwyo eraill ar eu taith wella.

Atodaf gopi o'r adroddiad llawn neu allwch ddilyn y linc isod sydd yn mynd â chi at y crynodeb i rieni, ynghyd â'r adroddiad llawn:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6724085?_ga=2.224332827.1604178293.1685966014-2041532976.1685966014

Nid chwarae bach oedd dewis addysg Gymraeg i'ch plentyn/plant, ond mi ydym yn ddyledus i bob un ohonoch am werthfawrogi ac ymddiried yn ein hysgolion clwstwr ac yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod addysg Gymraeg yn llwyddiannus ac yn gwerthfawr, ac fel ysgol rydym yn sicrhau bod ein plant yn derbyn yr addysg orau a chyfleoedd heb eu hail ar gyfer y dyfodol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth a hyderwn wrth i ni ddathlu a rhannu llwyddiant yr ysgol o fewn ein cymunedau, gallem adeiladu a thyfu addysg Gymraeg ymhellach ar draws y sir.

Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Prifathro hoffem ddiolch i bawb am y gwaith caled a llwyddiannus sydd yn digwydd yn barhaus ar draws ein hysgol ac mae'n braf cael ymfalchïo yn yr adroddiad hwn. Ar drothwy dathlu 15 mlynedd o addysg uwchradd Gymraeg yma yn sir Pen-y-bont ar Ogwr, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wir yn haeddu ei lle fel un o ysgolion gorau Cymru.

Ymlaen at y dyfodol fel Tîm Llan.
Yn gywir,

*Geraint Isaac*
Geraint Isaac
Cadeirydd y Llywodraethwyr

*Meurig Jones*
Meurig Jones
Prifathro